



Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd Hyd at 2035

Galw am Safleoedd Posibl

Nodiadau Cyfarwyddyd y Ffurflen Gyflwyno

Ionawr 2021





Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd
Hyd at 2035

Galw am Safleoedd Posibl

Nodiadau Cyfarwyddyd y Ffurflen Gyflwyno

Cyflwyniad

Mae **safle posibl** yn un a gyflwynir i'r Cyngor gan rai sydd â diddordeb (e.e. datblygwr neu dirfeddiannwr) er mwyn ei gynnwys o bosibl yn ddyraniad yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLI). Mae'r nodiadau cyfarwyddyd hyn yn rhoi gwybodaeth am y broses o gyflwyno safleoedd posibl.

Mae'n bwysig nodi nad yw cyflwyno Safle Posibl yn arwydd o ymrwymiad ar ran y Cyngor i fynd â safleoedd ymlaen i'r Ail CDLI Newydd. Bydd safleoedd yn gorfod bodloni asesiad cadarn, a dim ond y rhai sy'n sgorio'n uchel o ran cynaliadwyedd, y gallu i gyflawni a rhai sy'n unol â Strategaeth yr Ail CDLI Newydd fydd yn cael eu dyrannu.

Paratowyd y ffurflen gyflwyno gan roi sylw i bapur methodoleg Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru (Gorffennaf 2018), a baratowyd er mwyn cynnig cysondeb i awdurdodau cynllunio lleol yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru wrth gynnal asesiadau safle, a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020, Argraffiad 3), sy'n cynnig canllawiau manwl ar y broses safleoedd posibl.

Pa fath o safleoedd y gellir eu cyflwyno?

Mae croeso i dirfeddianwyr/cynigwyr gyflwyno safleoedd i'w defnyddio yn yr amryw ffyrdd y mae'r cynllun yn darparu ar eu cyfer. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, tir ar gyfer:

- Tai;
- Cyflogaeth;
- Manwerthu;
- Cyfleusterau Cymunedol;
- Twristiaeth a Hamdden;
- Ynni Adnewyddadwy;
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr;
- Seilwaith Trafnidiaeth;
- Gwastraff;
- Addysg;
- Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol;
- Bioamrywiaeth;
- Seilwaith gwyrdd;
- Mwynau

Y Trothwy ar gyfer Safleoedd Posibl

Bydd y Cyngor ond yn ceisio dyrannu safleoedd ar gyfer tai sydd â'r capasiti i letya 10 annedd neu ragor, neu sydd o leiaf 0.5 Ha o ran arwynebedd gros y safle. Mae hyn yn cyd-fynd â diffiniad 'datblygiad mawr' yn y ddeddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref.

O ran y trothwy ar gyfer dibenion eraill, dylai'r safle allu lletya adeilad sydd ag isafswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr a/neu fod y safle yn 1 Ha neu ragor o ran arwynebedd gros y safle.

Bydd safleoedd sydd o dan y trothwy o 10 anedd/0.5 Ha at ddibenion preswyl, neu 1,000 metr sgwâr o ran arwynebedd llawr/ 1Ha at ddibenion eraill yn cael eu dosbarthu yn 'safleoedd bach'. Bydd pob safle bach a gyflwynir yn cael ei gynnwys ar Gofrestr o Safleoedd Posibl.

Bydd safleoedd bach yn gorfod bodloni ymarfer hidlo cychwynnol er mwyn eu hasesu yn erbyn cyfyngiadau mawr. Bydd safleoedd bach sy'n ffinio, neu'n agos at ffiniau aneddiadau presennol y CDLI yn cael eu hystyried yn rhan o arolwg o ffiniau aneddiadau er mwyn penderfynu a ydynt yn briodol i'w cynnwys o fewn ffin yr anheddiad, gan roi sylw i strategaeth datblygu'r Ail CDLI Newydd. Bydd safleoedd bach sy'n cael eu cynnig ar gyfer tai ac sy'n llwyddo yn yr asesiad cychwynnol hefyd yn cael eu cynnwys ar gofrestr yr awdurdod lleol o safleoedd addas ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Busnesau Bach a Chanolig a'r sector cartrefi pwrpasol a hunan-adeiladu.

Safle a gyflwynwyd yn rhan o'r CDLI a fabwysiadwyd (Hyd at 2021) neu'r CDLI Newydd a dynnwyd yn ôl (Hyd at 2031)

Yn rhan o'r adolygiad, bydd angen ailgyflwyno unrhyw safleoedd posibl a gyflwynwyd yn rhan o'r galw am safleoedd posibl ar gyfer y CDLI a fabwysiadwyd yn 2005/6 neu ar gyfer y CDLI Newydd yn 2013/14. Bydd hyn yn cynnwys ail-gyflwyno unrhyw safleoedd a ddyrennir ar hyn o bryd yn y CDLI mabwysiedig nad ydynt eto wedi'u datblygu. Os na chaiff safleoedd presennol yn y CDLI mabwysiedig eu hail-gyflwyno, ni fyddant yn cael eu hystyried ymhellach.

Pe bai safle posibl wedi ei ddiystyru o'r blaen, neu os oedd safle wedi'i ddyrannu ond nad yw wedi'i ddatblygu, dylai'r cais newydd ystyried y rhesymau pam na chafodd y safle ei ddatblygu gan ddarparu gwybodaeth ychwanegol (e.e. arolygon) er mwyn esbonio sut y gellir goresgyn unrhyw gyfyngiadau a pham y mae'r safle'n addas i'w ddyrannu.

Cofrestr Safleoedd Posibl

Ar ddiwedd y cyfnod Cyflwyno Safleoedd Posibl, bydd cofrestr o safleoedd a gyflwynwyd yn cael ei pharatoi. Bydd y gofrestr safle hon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr Ail CDLI Newydd.

Pa fath o safleoedd sy'n debygol o fod yn dderbyniol?

Bydd y Cyngor ond yn dyrannu safleoedd sy'n glynu wrth ganllawiau cynllunio cenedlaethol fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru (PCC) a'r Nodiadau Cyngor Technegol (TAN).

Cyn cyflwyno safleoedd posibl, dylai hyrwyddwyr safleoedd fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau canlynol:

- Dylai adeiladu tai newydd a datblygiadau newydd eraill (manwerthu, cyflogaeth ac ati) yng nghefn gwlad agored, yn bell o aneddiadau sefydledig, gael eu rheoli'n llym. Mae'n annhebygol y bydd safleoedd sy'n cael eu cynnig mewn lleoliadau ynysig, yn bell o aneddiadau diffiniedig yn dderbyniol.
- Ni fydd safleoedd sy'n destun dynodiadau rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth yn dderbyniol (Ardal Cadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Warchodfa Natur Genedlaethol).
- Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n agored iawn i niwed (sy'n cynnwys tai, adeiladau cyhoeddus a gwasanaethau brys) yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf o lifogydd.

Wrth ddewis safleoedd, mae PCC yn glir ynghylch y math o leoliadau a fydd yn dderbyniol ar gyfer datblygiad adeiledig. Yn benodol, mae'n datgan, wrth nodi safleoedd sydd i'w dyrannu mewn cynlluniau datblygu, y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddilyn **trefn chwilio**, gan flaenoriaethu tir a ddatblygwyd yn flaenorol (tir llwyd) a/neu safleoedd sydd heb eu defnyddio o fewn aneddiadau yn y lle cyntaf; yna, safleoedd tir glas addas a chynaliadwy o fewn, neu ar gyrion, aneddiadau. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried safleoedd, gan gynnwys aneddiadau newydd, yng nghefn gwlad agored.

Er y bydd y Cyngor yn dal i geisio dyrannu tir ac adeiladau tir llwyd y gellir eu gwireddu yn y lle cyntaf, dylid nodi bod llawer o'r safleoedd tir llwyd mawr a ddyrennir yn y CDLI mabwysiedig presennol bellach wedi'u datblygu. Felly, bydd angen i'r Cyngor ystyried rhyddhau safleoedd tir glas ar gyrion aneddiadau lle nad oes digon o safleoedd tir llwyd y gellir eu gwireddu ar gael i fodloni gofynion y dyfodol.

Gwybodaeth ategol

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i hyrwyddwr y safle ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â safle er mwyn gallu asesu'r safle'n iawn. Dylai hyrwyddwyr safleoedd ateb pob cwestiwn mor llawn â phosibl gan ddarparu gwybodaeth atodol lle bo angen. Os nad yw'r ateb i unrhyw gwestiynau yn hysbys ar hyn o bryd, efallai y bydd hyrwyddwyr safleoedd am gynnal asesiadau neu arolygon pellach lle bo angen i fynd i'r afael â hyn.

Cydnabyddir bod cost yn gysylltiedig â pharatoi gwybodaeth atodol (e.e. astudiaethau ecolegol, asesiadau o'r effaith ar draffig, asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd, astudiaethau draenio ac ati) a bydd gan hyrwyddwyr safleoedd bryderon ynghylch comisiynu arolygon cyn cyhoeddi'r strategaeth a ffefrir, heb y sicrwydd o wybod lle mae twf yn y dyfodol yn debygol o fod yn dderbyniol. Mae'r Cyngor o'r farn y dylai lefel yr wybodaeth a gyflwynir fod yn gymesur; yn ystod y cam cyflwyno safle cychwynnol hwn, ni ddisgwylir i'r cais safle posibl gael ei gefnogi â lefel yr wybodaeth a ddisgwylir i gefnogi cais cynllunio, er y byddai cynnwys manylion o'r fath ar hyn o bryd yn helpu i brosesu'r cais.

Fodd bynnag, os yw hyrwyddwr safle yn ymwybodol o gyfyngiad sylweddol (e.e. bod rhan o'r safle o fewn y gorlifdir, neu fod gwerth ecolegol i'r safle, neu ei fod o fewn ardal lofaol risg uchel) yna y mae er budd hyrwyddwyr y safle i gyflwyno gwybodaeth am y cyfyngiad hwn ochr yn ochr â'u cais safle. Bydd nodi unrhyw faterion yn gynnar yn helpu'r cynigydd, y Cyngor a'r ymgylgoreion statudol i nodi mesurau lliniaru priodol i fynd i'r afael â phroblemau posibl. Rhaid i safleoedd sydd wedi'u cynnwys yn yr Ail CDLI Newydd fod yn realistig, yn briodol ac yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy; yn hyn o beth, y mwyaf o wybodaeth y gellir ei chyflwyno i ddangos bod safle'n addas, y mwyaf tebygol ydyw y bydd safle'n cael ei gynnwys.

Efallai y bydd angen rhagor o arolygon i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo safleoedd posibl yn ddiweddarach. Gall hyn gynnwys arolygon ecolegol, arolygon coedyddiaeth, asesiadau strategol o ganlyniadau llifogydd, astudiaethau draenio, asesiadau risg glofaol, asesiadau o'r effaith ar draffig, asesiadau effaith ar ansawdd yr aer, ac unrhyw wybodaeth arall y gallai fod ei hangen i ddangos bod modd gwireddu safle. Hyrwyddwr y safle sy'n gyfrifol am wneud y gwaith technegol perthnasol er mwyn cefnogi safleoedd i gael eu cynnwys yn y cynllun, gan gynnwys cyfrifoldeb am y costau ariannol.

Gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) ofyn am arfarniad hyfywedd manwl ar eich safle cyn y cam Adneuo er mwyn dangos a yw'n ariannol hyfyw. Byddai angen paratoi'r asesiad hyfywedd yn unol â chanllawiau a bennwyd gan yr ACLI gan ddefnyddio model hyfywedd cytunedig. Gall peidio â chyflwyno arfarniad hyfywedd olygu na chaiff eich safle ei gynnwys yn yr Ail CDLI Adneuo Newydd.

Mae'n ddyletswydd ar hyrwyddwyr safleoedd i gymryd rhan gadarnhaol yn y broses o baratoi'r cynllun yn ystod pob cam, gan weithio gyda'r ACLI i sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol ar gael yn ystod y cam priodol.

Cwblhau'r Ffurflen

Rhaid i'r Cyngor dderbyn pob ffurflen gyflwyno wedi'i llenwi erbyn **31 Awst 2021** fan hwyraf. Bydd y dyddiad cau hwn yn caniatáu digon o amser i gynigwyr safleoedd gasglu gwybodaeth berthnasol y gallai fod arnynt ei hangen i ategu eu hachos a chynnal yr ymgynghoriadau â rhai perthnasol megis ymgwymerwyr statudol. Ni fydd ffurflenni cyflwyno a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried i'w cynnwys yn y Cynllun.

Mae'r adran isod yn cynnig gwybodaeth allweddol ac yn cyfeirio at fapiau a data arall, er mwyn galluogi hyrwyddwyr safleoedd i ymateb i'r cwestiynau hynny y mae angen eu hegluro ymhellach, neu lle mae rhagor o wybodaeth ar gael.

Manylion cyswllt

Rhowch fanylion cyswllt perthnasol, gan gynnwys manylion yr asiant os enwebir asiant i weithredu ar ran y tiffeddiannwr. Bydd asiantwyr yn derbyn pob gohebiaeth yn ymwneud â'r CDLI ar ran hyrwyddwr y safle.

Manylion y safle

Dylai'r cynllun a gyflwynir gyda'r safle fod ar sylfaen Arolwg Ordnans a dylai gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

Amlinelliad o'r safle a gyflwynir yn **Goch**
Unrhyw dir ychwanegol y mae'r cynigydd yn berchen arno wedi'i amlinellu yn **Las**
Unrhyw lwybrau mynediad preifat sydd o dan reolaeth y cynigydd wedi'i amlinellu yn **Gwyrdd**

Cynllunio

Statws Cynllunio – nodwch a yw'r safle wedi'i ddyrannu yn y CDLI mabwysiedig at ddefnydd penodol a/neu a oes ganddo ganiatâd cynllunio. Bydd y map cynigion ar-lein ar gyfer y CDLI yn rhoi manylion am hyn: <http://caerphilly.opus3.co.uk/ldf/maps>

Hanes cynllunio ar y safle – rhowch fanylion unrhyw geisiadau cynllunio blaenorol neu gyfredol sy'n gysylltiedig â'r safle, gan gynnwys rhif y cais a'r penderfyniad. Mae gwybodaeth am geisiadau'r gorffennol ar gael yma: <https://publicaccess.caerphilly.gov.uk/PublicAccess/>

Trafodaethau cyn ymgeisio – rhowch wybodaeth am unrhyw ohebiaeth neu gyfarfodydd ynglŷn â'r safle cyn cyflwyno cais cynllunio, gan gynnwys unrhyw gyfeirnodau a manylion yr hyn a gynigiwyd.

Ceisiadau Safleoedd Posibl Blaenorol – cyhoeddwyd y 'galw am safleoedd posibl' yn 2005/6 ar gyfer y CDLI mabwysiedig ac yn 2013/14 ar gyfer y CDLI Newydd a dynnwyd yn ôl. Os cyflwynwyd safleoedd yn rhan o'r broses hon, rhowch y cyfeirnod ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Perchnogaeth

Dylai cynigwyr tir nodi a ydynt yn berchen ar y safle a gyflwynir ganddynt. Os yw'r cynigydd yn dymuno cyflwyno tir i'w gynnwys, ond nad yw'n berchen ar y safle cyfan, dylid nodi sut y cyflawnir hyn. A gysylltwyd â'r tiffeddiannwr, ac a yw wedi cytuno i'r datblygiad posibl ar y safle? Os felly, dylai cynigydd y tir ddarparu tystiolaeth i'r perwyl hwn.

Os oes nifer o dirfeddianwyr yn rhan o'r broses, darparwch Gynllun Arolwg Ordnans sy'n nodi'n glir y lleiniau o dir sy'n eiddo i bob perchennog, a manylion cyswllt yr holl berchenogion.

Os yw'r cyhoedd yn berchen ar y safle, dylid darparu manylion ynghylch a oes cytundeb bod y safle ar gael i'w waredu.

Dylid darparu manylion am unrhyw gyfamodau sy'n cyfyngu, neu faterion cyfreithiol eraill hefyd.

Addasrwydd y Safle

Cyflwr y Safle

- D1 Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen – Mae diffiniad Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen i'w weld ar dudalen 37 o Bolisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10):
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf>

Llygredd

- D7 Effaith Defnydd Cyfagos ar Amwynderau – Dylid ystyried tyrbinau gwynt unigol o fewn 500m i'r safle, ac effaith gronnol nifer o dyrbinau (ffermydd gwynt) o fewn 2km.
- D9 Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Aer – Mae lleoliad y ddwy Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer yn y Fwrdeistref Sirol i'w gweld yma: <https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Environmental-health-and-pollution/Pollution/Air-quality?lang=cy-gb>
- D10 Safleoedd tirlenwi – Mae lleoliadau safleoedd tirlenwi hanesyddol i'w gweld yma: <http://lle.gov.wales/catalogue/item/HistoricLandfillSites/?lang=cy>

Perygl o Lifogydd

- D11 TAN 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd – Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu diweddaraf i'w gweld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy> Mae fersiwn 2004 o TAN 15 yn diffinio 'ardaloedd perygl mawr' fel Parth C y Gorlifdir. Yn Ardaloedd C2, ni ddylid caniatáu datblygiadau sy'n agored iawn i niwed, megis tai. Dim ond os gellir cyfiawnhau pob datblygiad newydd arall yn unol â'r profion yn Adran 6.2 o TAN 15 y dylid caniatáu pob datblygiad newydd arall. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddrafft diwygiedig o TAN 15 (Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol). Mae'r parthau llifogydd wedi'u hailddosbarthu o fewn y TAN 15 sydd wedi'i ddiweddarau – Parth 3 yw'r ardal perygl mwyaf. Mae gofynion tebyg o ran datblygiadau sy'n agored iawn i niwed, a llai agored i niwed, yn berthnasol.
- D12 Tueddiad llifogydd dŵr wyneb (D12) – Ceir gwybodaeth am Lifogydd Dŵr Wyneb ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy>
- Bydd yn ofynnol i gynigwyr safleoedd, y bernir eu bod yn addas i'w hystyried ymhellach ym mhroses y safle posibl, ddarparu rhagor o wybodaeth am systemau draenio cynaliadwy (SuDS). Ceir rhagor o wybodaeth am y gofynion yma:
[https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Roads-and-pavements/Flood-risk-management/Sustainable-Drainage-Approval-Body-\(SAB\)?lang=cy-gb](https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Roads-and-pavements/Flood-risk-management/Sustainable-Drainage-Approval-Body-(SAB)?lang=cy-gb)
- D13 Gellir cael rhagor o wybodaeth am geuffosydd o adran Draenio'r Cyngor
<https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Roads-and-pavements/Flood-risk-management?lang=cy-gb>

Treftadaeth Naturiol

- D14 Ardaloedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol neu Genedlaethol ar gyfer Bioamrywiaeth – Ceir manylion dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol ar fap cyfyngiadau'r CDLI:

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) <http://lle.gov.wales/map?lang=cy#m=-3.159,51.47832,8&b=europa&l=1356>;
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) <http://lle.gov.wales/map?lang=cy#m=-3.159,51.47832,8&b=europa&l=12>;

Pe byddai'r safle'n effeithio ar ACA, rhaid cyflwyno Asesiad Priodol.

Pe byddai'r cynnig yn effeithio ar SSSI, efallai y byddai angen arolwg ecolegol, ynghyd ag asesiad effaith i roi manylion sut y bydd y datblygiad yn effeithio ar nodweddion pwysig y safleoedd. Gellir cael data o adran Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chanolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBRcC): <http://www.sewbrec.org.uk/data-enquiries-folder/enquiries/data-enquiries-2019.page>.

- D15 Safleoedd Dynodedig Lleol – Gellir dod o hyd i fanylion Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur ar fap cynigion y CDLI: <http://caerphilly.opus3.co.uk/ldf/maps>
- D16 Rhywogaethau neu Gynefinoedd a Warchodir neu â Blaenoriaeth – gellir cael data gan Ganolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWBRcC) yma: <http://www.sewbrec.org.uk/data-enquiries-folder/enquiries/data-enquiries-2019.page>. Os yw cofnodion yn dangos rhywogaethau neu gynefinoedd o werth ecolegol, dylid cefnogi'r cais safle posibl gan Arolwg Ecolegol Cam 1 wedi'i baratoi gan ecolegydd cymwys.

Tirwedd a Mannau Agored

- D18 Dynodiadau Tirweddau Lleol – Gellir dod o hyd i wybodaeth am Ardaloedd Tirwedd Arbennig a Thirweddau Lleol o Bwysigrwydd Gweledol ar fap cynigion y CDLI: <http://caerphilly.opus3.co.uk/ldf/maps>
- D19 Lletemau Glas – Gellir dod o hyd i wybodaeth am Letemau Glas ar fap cynigion y CDLI: <http://caerphilly.opus3.co.uk/ldf/maps>
- D20 Gorchmynion Diogelu Coed – Ceir gwybodaeth am goed a choetiroedd sy'n destun Gorchmynion Diogelu Coed (TPOs) yma: <https://www.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=8f8e45e163664775819414bd3b5029c4>
- D22 Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) – Os yw'r safle'n cynnwys tir amaethyddol BMV Gradd 1, 2 neu 3a, yna efallai y bydd angen Arolwg Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Gweler: <http://lle.gov.wales/map/alccy2#m=-3.4,52.5,8>

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

- D24 Gellir cael manylion Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PROW) a Hawlio Hawliau Tranwy gan adran Hawliau Tramwy'r Cyngor: <https://greenspacescaerphilly.co.uk/cy/public-rights-of-way>

Mwynau

- D25 Gellir gweld map o gyfyngiadau glofaol yma: <http://mapapps2.bgs.ac.uk/coalauthority/home.html>
Os yw safle o fewn ardal Datblygu Risg Uchel, bydd angen cynnal Asesiad Risg Glofaol er mwyn asesu effaith unrhyw weithgarwch cloddio cynt ar y safle.

- D26 Mae ardaloedd diogelu mwynau i'w gweld ar fap cynigion y CDLI:
<http://caerphilly.opus3.co.uk/ldf/maps>

Treftadaeth

- D27 Adeiladau rhestredig – Ceir map o holl adeiladau rhestredig y Fwrdeistref Sirol yma:
<http://lle.gov.wales/Catalogue/Item/ListedBuildings/?lang=cy>
- D28 Ardaloedd Cadwraeth – Ceir map o'r holl ardaloedd cadwraeth yma:
<http://lle.gov.wales/catalogue/item/ConservationAreas/?lang=cy>
- D29 Henebion Cofrestredig – Ceir map o holl henebion cofrestredig y Fwrdeistref Sirol yma:
<http://lle.gov.wales/catalogue/item/ScheduledAncientMonumentsInWales/?lang=cy>
- D30 Tirweddau Hanesyddol – Ceir gwybodaeth am leoliad Tirweddau Hanesyddol, Parciau a Gerddi Hanesyddol ar fap cyfyngiadau'r CDLI: <http://caerphilly.opus3.co.uk/ldf/maps>

Cyfleustodau

- D31 Cyfleustodau – dylai cynigwyr roi ✓ neu × ar gyfer pob gwasanaeth. Os 'na' yw'r ateb, rhowch esboniad o sut y gellir cael mynediad at y gwasanaeth. Dylid hefyd darparu manylion (os yw'n hysbys) ynghylch a oes gan y gwasanaethau hyn y gallu i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig.

Priffyrdd a Chludiant

- D33 Teithio Llesol – Mae'r Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol i'w weld yma:
<https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/Consultations/Active-Travel-Plan/ActiveTravelIntegratedNetworkMapsHiRes.aspx>
- D35 Rhwydwaith Priffyrdd Strategol – Mae'r hierarchaeth ffyrdd i'w gweld yn Atodiad 16 o'r CDLI:
<https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/LDP/Appendices-to-Written-Statement.aspx>
- D37 Cynhyrchu Traffig – nodir y trothwyau yn Atodiad D TAN 18:Trafnidiaeth:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan18-trafnidiaeth.pdf>

Newid yn yr Hinsawdd

- D38 Technolegau cynhyrchu ynni – dylai cynigwyr safleoedd roi manylion am unrhyw gynigion ar gyfer defnyddio technolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon ar y safle.
- D39 Lliniaru ac Addasu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd – dylai cynigwyr safleoedd egluro pa fesurau a gynigir i leihau allyriadau carbon yn rhan o'r datblygiad e.e. dulliau adeiladu, pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan, cyfeiriadedd anheddau, agoswydd at drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol, defnyddio seilwaith gwyrdd ac ati.